

Maniffesto Anabledd Dysgu Cymru 2026:

Cefndir a gwybodaeth bellach

Mae Cymru yn genedl sydd wedi'i hadeiladu ar y gred bod pawb yn haeddu byw gydag urddas a chael eu cynnwys. Eto mae gormod o bobl ag anabledd dysgu a/neu bobl awtistiaeth yn dal i wynebu rhwystrau.

Yn ôl Mencap Cymru, mae tua 70,000 o bobl ag anabledd dysgu yn byw yng Nghymru, gyda dim ond 1 o bob 4 o bobl yn adnabyddus i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod llawer o bobl yn cwmpo trwy'r rhwyd, yn methu â chael mynediad at gymorth y gallai fod ei angen arnynt, eu lleisiau yn parhau i beidio â chael eu clywed yn ddigonol, eu hannibyniaeth yn gyfyngedig, a chyfleoedd yn brin. Mae eu safbwyntiau nid yn unig yn ddilys ond yn hanfodol ac yn haeddu cael eu cydnabod i helpu i lunio'r Gymru rydyn ni'n byw ynddi.

Gyda'r sector anabledd dysgu yng Nghymru mewn argyfwng a llawer o wasanaethau yn dod i ben, rydym ni'n annog Llywodraeth newydd Cymru i wrando, deall a dangos cefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr ledled Cymru.

Amdanom ni

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r sector anabledd dysgu yng Nghymru. Rydym ni'n gweithio gyda phobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau pobl anabl a'r trydydd sector i wneud Cymru y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi.

Ein gweledigaeth

Rydym ni nid yn unig eisiau i Gymru fod y wlad orau yn y byd i bobl ag anabledd dysgu fyw, dysgu, caru a gweithio ynddi, ond rydym ni eisiau Cymru lle mae pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cynnwys a'u derbyn yn llawn ym mhob rhan o gymdeithas.

Ein gofynion

Er mwyn sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi, rydym ni am i Lywodraeth nesaf Cymru:

1. Hyrwyddo pwysigrwydd gwybodaeth hygyrch

Nid yw gwybodaeth hygyrch yn 'brاف i'w gael' yn unig – mae'n angenrheidiol.

Mae'n helpu pobl ag anabledd dysgu i ddeall gwybodaeth sy'n cael ei chyflwyno mewn ffordd glir, heb jargon. Mae ['Safonau Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch mewn Gofal Iechyd'](#)

Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i bob corff cyhoeddus wneud addasiadau rhesymol. Mae hyn yn cynnwys darparu fformatau hygyrch i bobl ag anabledd dysgu ac eraill sydd â rhwystrau cyfathrebu.

Er bod fformatau hygyrch, gan gynnwys Hawdd ei Ddeall, yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, mae yna adegau pan fo oedi wedi bod gyda'r wybodaeth hon. Cafwyd oedi gyda'r fersiwn hawdd ei ddeall o'r Cynllun Drafft ar Hawliau Pobl Anabl, er gwaethaf galwadau gan sefydliadau pobl anabl ledled Cymru i gyhoeddi ar yr un pryd â'r adroddiad llawn.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Rydym ni am sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n wynebu'r cyhoedd, yn enwedig mewn meysydd fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, a thai, ar gael mewn fformatau hygyrch fel Hawdd ei Ddarllen, iaith plaen, BSL, fersiynau dwyieithog Cymraeg/Saesneg, a mwy.

2. Cefnogi'r ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn

Mae'r Ymgyrch Bywydau Wedi'u Dwyn yn grŵp o deuluoedd o Gymru sy'n eiriol dros ryddhau pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig o gael eu dal yn hirdymor mewn ysbytai arbenigol ac unedau iechyd meddwl. Maen nhw wedi ymgyrchu'n ddifflino i sicrhau cefnogaeth gymunedol i anwyliaid sydd wedi'u cloi i ffwrdd, gan dynnu sylw at y trawma, yr ynysu a'r niwed hirdymor

sy'n cael ei achosi ac annog Llywodraeth Cymru i wella gwasanaethau lleol i atal sefydliadeiddio.

Mae adroddiadau fel [O Ysbytai i Gartrefi: Gwasanaethau Cleifion Mewnol Anabledd Dysgu](#) (2026), a gynhyrchwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Bywydau Wedi'u Dwyn Cartrefi Nid Ysbytai, yn tynnu sylw at bryderon hawliau dynol parhaus ynghylch pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig sy'n cael eu hanfon yn amhriodol i ysbyty meddwl a'u derbyn i'r ysbyty oherwydd diffyg gofal a chefnogaeth yn y gymuned. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod Cymru ar hyn o bryd yn methu yn ei rhwymedigaethau hawliau dynol, gyda'r Prif Weinidog presennol, Eluned Morgan AS, yn ei ddisgrifio fel 'sgandal hawliau dynol'.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Rydym ni am i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun clir, wedi'i ariannu ar sut y bydd pobl ag anabledd dysgu a/neu bobl awtistig yn cael eu symud allan o ysbytai/cyfleusterau iechyd meddwl ac yn ôl i'w cymunedau lleol.

3. Cau'r bwlch cyflogaeth ymhlith pobl anabledd

Mae pobl anabl yng Nghymru yn wynebu un o'r bylchau cyflogaeth anabledd uchaf yn y DU. Ym mis Medi 2024, roedd y bwlch cyflogaeth anabledd amcangyfrifedig yn 31% sy'n golygu bod pobl anabl yn [31% yn llai tebygol o gael eu cyflogi](#) na phobl nad ydynt yn anabl.

Fodd bynnag, i bobl ag anabledd dysgu, mae'r ffigur hwnnw'n edrych yn waeth gyda dim ond [4.8% mewn gwaith cyflogedig](#) yn y DU. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at yr angen am ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth y gwnaeth y [Prosiect Engage to Change](#) ei ddangos tan iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

Nod y prosiect Engage to Change oedd cefnogi pobl ifanc 16-25 mlwydd oed ag anawsterau dysgu, anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i gael cyflogaeth ystyrlon. Rhwng 2016 a 2023, fe wnaethom weithio gyda phobl ifanc, eu teuluoedd, cyflogwyr, a darparwyr cyflogaeth â chymorth ac o ganlyniad, fe wnaethom helpu 1300 o bobl ifanc ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth i

gael gwaith ystyrlon, gyda 41% o bobl ifanc yn sicrhau swydd â thâl.

Rhoddodd aelodau o'r prosiect dystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru ac ym mis Mawrth 2025, rhyddhaodd y pwyllgor ei Adroddiad '[Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd](#)'.

Mae Engage to Change wedi profi, trwy gael gwared ar rai o'r rhwystrau systemig i gyflogaeth sy'n atal pobl ag anabledd dysgu rhag ymuno â'r gweithlu, mae cyflogaeth yn bosibl ac mae unrhyw beth yn gyraeddadwy.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Rydym ni am i Lywodraeth Cymru ymrwymo i greu Strategaeth Hyfforddi Swyddi Genedlaethol i sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn cael mynediad at gyflogaeth â chymorth a hyfforddiant swyddi.

4. Lleihau anghydraddoldebau iechedd

Yng Nghymru, mae pobl ag anabledd dysgu nid yn unig yn profi canlyniadau iechedd gwael, ond yn anffodus maen nhw hefyd yn marw'n sylweddol iau, gydag [oedran marwolaeth canolrifol tua 67 o'i gymharu â 87](#) ar gyfer pobl nad ydynt yn anabl. Yn bryderus, gellid atal llawer o'r marwolaethau hyn, sy'n tynnu sylw at yr anghydraddoldebau iechedd difrifol sy'n wynebu pobl ag anabledd dysgu.

Mae Gwiriadau Iechedd Blyneddol yn ymyrraeth allweddol ac yn fesur ataliol posibl i helpu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn. Mae'r gwiriadau hyn yn hanfodol wrth dynnu sylw at unrhyw faterion meddygol yn gynharach fel y gellir darparu triniaeth ac atal materion mwy difrifol rhag datblygu.

Fodd bynnag, o'r hyn rydyn ni'n ei wybod ac o [Dadansoddiad Gwelliant Cymru](#), mae'r nifer sydd wedi manteisio arno wedi amrywio rhwng 30% a 60%. Gallai hyn fod oherwydd diffyg gwybodaeth, hyrwyddo, dealltwriaeth staff, neu broses glir.

Yr hyn rydyn ni'n ei wybod yw bod Gwiriadau lechyd Blynyddol yn gysylltiedig â llai o farwolaethau, yn enwedig ymhlith pobl â syndrom Down a phobl awtistig ag anabledd dysgu. Dyma pam eu bod yn hanfodol ac mae angen gwneud mwy i sicrhau bod dealltwriaeth a defnydd yn gwella.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano:

I Lywodraeth Cymru ymrwymo i helpu i gynyddu defnydd ac ansawdd Gwiriadau lechyd Blynyddol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu drwy ariannu gofal sylfaenol, hyfforddiant arbenigol, a gwella monitro defnydd ac ansawdd asesiadau.

5. Cefnogi rhieni ag anabledd dysgu

Mae rhieni ag anabledd dysgu a'u plant yn profi gwahaniaethu ac anfantais sylweddol. Er bod arfer cadarnhaol wedi'i sefydlu o ran cefnogi'r rhieni hyn, mae'r ddarpariaeth yn dal yn wael.

Mae'r arfer da sy'n bodoli yn cael ei fygwth gan yr hinsawdd ariannol bresennol, diffyg ystyriaeth o anghenion rhieni mewn polisi a diffyg ymwybyddiaeth gan weithwyr proffesiynol o anghenion cymorth penodol rhieni ag anabledd dysgu. Mae'r holl ffactorau hyn yn cyfrannu at ganran annerbyniol o uchel o deuluoedd lle mae plant ag un neu fwy o rieni gydag anabledd dysgu yn cael eu tynnu oddi wrth eu rhieni gan wasanaethau cymdeithasol.

Mae [canllawiau Llywodraeth Cymru](#) yn atgyfnerthu'r angen am ymyrraeth gynnar, cyfathrebu effeithiol, a phrosesau gwneud penderfyniadau hygyrch i rieni. Gall llawer o rieni ag anabledd dysgu fagu eu teuluoedd yn llwyddiannus os darperir y gefnogaeth gywir. Fodd bynnag, nid yw llawer o weithwyr cymdeithasol naill ai'n ymwybodol o'r canllawiau neu'n methu â'u rhoi ar waith yn gywir, gan atal rhieni rhag derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arnynt a chynyddu'r risg o'u plant yn cael eu tynnu oddi arnynt.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Gwella cefnogaeth i rieni ag anabledd dysgu i alluogi mwy o deuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel.

6. Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Mae pobl ag anabledd dysgu mewn mwy o berygl o unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Mae hyn oherwydd sawl rhwystr cymdeithasol gan gynnwys gweithgareddau anhygyrch, diffyg cefnogaeth wrth gymdeithasu, heriau cyfathrebu, ac anawsterau mynediad at addysg neu gyflogaeth. Gall y rhwystrau hyn felly gyfyngu ar gyfleoedd i ffurfio cysylltiadau ystyrlon mewn cymunedau.

Yn ôl [Adroddiad Cyflwr y Genedl 2025](#) Mencap Cymru, nid yw 1 o bob 5 o bobl ag anabledd dysgu yn teimlo'n rhan o'u cymuned, gydag un person yn rhannu "Mae'n well gen i gwmni i fynd allan gan ei fod yn unig heb gwmni".

Mae llawer o bobl ag anabledd dysgu yn ei chael hi'n anodd mynychu digwyddiadau a gweithgareddau cymdeithasol, yn enwedig gyda'r nos, oherwydd diffyg cefnogaeth, problemau gyda chludiant ac ofnau ynghylch diogelwch. Dyma pam mae prosiectau arloesol fel [Ffrindiau Gig Cymru](#) mor bwysig. Mae Ffrindiau Gig yn paru oedolion ag anabledd dysgu a/neu oedolion awtistig gyda ffrind gwirfoddol sy'n rhannu'r un diddordebau fel y gallant fwynhau gweithgareddau cymdeithasol gyda'i gilydd. Mae hefyd yn mynd i'r afael â materion difrifol fel unigrwydd ac ynysu cymdeithasol, tra'n gwella hyder, annibyniaeth a lles pobl.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu datblygu a chynnal cyfeillgarwch a pherthnasoedd, a chymdeithasu yn y gymuned heb rwystrau.

7. Blaenoriaethu cyllid digonol ar gyfer y sector anabledd dysgu

Mae'r sector Anabledd Dysgu yng Nghymru mewn argyfwng. Mae'r argyfwng hwn yn bygwth lles, hawliau a systemau cymorth i filoedd o bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd. Rydym ni wedi dod yn fwyfwy pryderus am nifer y gwasanaethau sy'n cau a'r lleihau gweithredol yn y trydydd sector yng Nghymru sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu.

Ers mis Mai 2025 rydym ni wedi bod yn adrodd yn rheolaidd ar gau amrywiaeth o sefydliadau â'u pwrpas yw cefnogi pobl ag anabledd dysgu. O elusennau sy'n seiliedig ar weithgareddau, sefydliadau hunan-eiriolaeth i ddarparwyr byw â chymorth, mae ymchwydd mewn gwasanaethau mawr eu hangen yn cau.

Mae cynnydd diweddar i Gyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs) a'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi arwain at elusennau cofrestredig a darparwyr eraill y trydydd sector yn cael eu gorfodi i ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn i lenwi tyllau a chymhorthdal contractau. Mae trafodaethau gydag awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn parhau ond mae realiti'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol a'r Yswiriant Gwladol yn gadael ychydig o opsiynau yn unig i sefydliadau. Mae'r heriau eraill sy'n wynebu darparwyr byw cymorth yng Nghymru yn cynnwys newidiadau i reoliadau tân ac anawsterau gyda recriwtio a chadw staff, sydd i gyd yn cyfrannu at sefyllfa anodd iawn.

Heb weithredu brys, cyd-gysylltiedig, mae'r cynnydd a wnaed ers cyflwyno [Strategaeth Cymru Gyfan yn 1983](#) mewn perygl o gael ei ddadwneud. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'n benderfynol i amddiffyn hawliau, cynnal gwasanaethau, a sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu byw bywydau llawn a chymorth yn eu cymunedau.

Yr hyn rydyn ni'n gofyn amdano: Sicrhau bod sefydliadau anabledd dysgu yn cael eu hariannu'n briodol i gefnogi pobl i fyw eu bywydau a ffynnu yn eu cymunedau.

8. Cefnogi Maniffesto Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan

Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan yw'r llais cenedlaethol ar gyfer hunan-eiriolaeth i bobl ag anabledd dysgu yng Nghymru a dyma'r unig sefydliad cenedlaethol yn y wlad sy'n cael ei arwain gan bobl ag anabledd dysgu. Yn ei Maniffesto 2026, mae'r sefydliad yn galw am gryfhau hawliau hunan-eiriolaeth, diwygio tai, cymorth cyflogaeth, a diwedd ar leoliadau ysbyty diangen.

Ochr yn ochr â gofynion y maniffesto, rydym ni'n cefnogi gwaith Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan ac yn annog eich cefnogaeth iddyn nhw a'u maniffesto nhw.

Dysgu mwy

Am ragor o wybodaeth neu i gael sgwrs gyda ni am y maniffesto hwn, ewch i'n gwefan www.ldw.org.uk neu e-bostiwch policy@ldw.org.uk